Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Gweithlu'r diwydiannau creadigol

## Gweithdy

Ionawr 2023

## 1. Cefndir

**1.** Ym mis Gorffennaf 2022, fe wnaeth Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol y Senedd lansio ymchwiliad ar yr heriau sy'n wynebu gweithlu'r diwydiant creadigol.

**2.** Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, cynhaliodd y Pwyllgor weithdy ar 10 Tachwedd 2022, dan ofal Prifysgol De Cymru gyda'r diben o archwilio a chael dealltwriaeth well o'r heriau gyda gweithlu'r sector.

**3.** Bu aelodau'r Pwyllgor yn trafod materion sy'n effeithio ar weithlu'r diwydiannau creadigol gydag amrywiaeth o randdeiliaid o bob rhan o'r diwydiannau creadigol. Roedd y sgyrsiau wedi'u strwythuro'n fras o gwmpas cylch gorchwyl yr ymchwiliad.

**4.** Ymhlith y pynciau trafod roedd: iechyd gweithlu'r sector; a sefydlogrwydd ariannol a thâl ac amodau gwaith, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb yn y sector; sgiliau a chyfleoedd hyfforddi; yn ogystal ag effaith cymorth y Llywodraeth. Cafodd y safbwyntiau a rennir yn ystod y gweithdy eu casglu'n ddienw gan swyddogion y Pwyllgor.

**5.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gweithdy.

# 2. Cyfranogwyr

**6.** Roedd y gweithdy, a gynhaliwyd mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru, yn croesawu unigolion o'r meysydd canlynol yn y gweithlu diwydiannol creadigol ledled Cymru:

- Animeiddio
- Mannau cydweithio creadigol
- Dawns
- Dylunio
- Drama
- Ffasiwn
- Gemau
- Addysg uwch
- Marchnata
- Cerddoriaeth
- Ffotograffiaeth
- Effeithiau arbennig
- Theatr
- Hyfforddiant
- Cynhyrchu fideos

**7.** Ceir rhestr o'r sefydliadau yn Atodiad 1.

# 3. Y gweithdy

**8.** Ar 10 Tachwedd 2022, croesawodd aelodau'r Pwyllgor unigolion o sawl maes o fewn gweithlu'r diwydiant creadigol ar draws Cymru, i gael trafodaethau i archwilio a deall yr heriau'n well gyda gweithlu'r sector.

**9.** Cafodd y gweithdy ei drefnu ar ffurf dwy sesiwn drafod, a chafodd y cyfranogwyr eu rhannu'n gyfartal i ddau grŵp gwahanol. Roedd pob sesiwn yn para am tua 50 munud gydag amser ar gyfer adborth.

**10.** Roedd Delyth Jewell AS (Cadeirydd y Pwyllgor) ac Alun Davies AS (Aelod o'r Pwyllgor) yn bresennol ac yn ymgysylltu â chyfranogwyr o'r gweithlu diwydiannau creadigol.

**11.** Gofynnwyd i'r cyfranogwyr drafod a rhoi adborth ar y materion a ganlyn:

- Beth yw iechyd presennol gweithlu'r sector, gan gynnwys effeithiau'r pandemig, Brexit a'r argyfwng costau byw? A yw gweithwyr wedi gadael y sector, a pha effaith y mae hyn wedi'i chael?
- Pa mor sefydlog yw'r sector yn ariannol a pha mor addas yw'r cyflog a'r amodau gwaith?
- Pa mor gyfartal, amrywiol a chynhwysol yw'r sector? Sut y gellid gwella hyn?
- Pa mor ddigonol yw'r sgiliau a chyfleoedd hyfforddi? A oes bylchau, a sut y dylid eu llenwi?
- Beth fu effaith cymorth gan gyrff cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru, ac a oes angen cymorth pellach?

# 4. Y prif themâu

## Cyflwr gweithlu'r sector ar hyn o bryd

gan gynnwys effeithiau'r pandemig, Brexit a'r argyfwng costau byw. A yw gweithwyr wedi gadael y sector, a pha effaith y mae hyn wedi'i chael?

**12.** Rhannwyd effeithiau cyffredinol Brexit a'r pandemig Covid-19 yn helaeth. Ar yr un pryd, roedd y rhai sy'n ymwneud â maes y sgrin, yn enwedig meysydd y mae pobl yn cael mynediad atynt gartref, yn rhannu canlyniadau cadarnhaol, arloesedd a phosibiliadau newydd yn dod i'r amlwg.

**13.** Rhannodd cyfranogwyr sy'n rhan o'r diwydiant gemau:

> *Fe wnaeth cynhyrchu cynnwys barhau yn ystod y pandemig, ac roedd cyfleoedd i rai busnesau dyfu*

> *Fe wnaeth gemau ac animeiddio drosglwyddo i'r pandemig yn weddol ddi-dor*

**14.** Roedd diwydiannau eraill a rannodd brofiadau, fel sinemâu a theatrau – wedi profi trafferthion:

> *Nid yw 40-50 y cant o gynulleidfaoedd wedi dychwelyd i sinemâu, ac mae llawer o sinemâu wedi cau ledled y DU. Mae pobl yn ystyried, yn annheg, nad yw sinemâu'n ddiogel o ran COVID. Mae angen diogelu profiadau diwylliannol sy'n cael eu rhannu.*

> *Gadawodd llawer o bobl fyd y theatr. Roedd llawer wedi dechrau swyddi eraill y maen nhw wedi aros ynddyn nhw. Mae cwmnïau theatr llai wedi dod i derfyn. Mae cynulleidfaoedd y theatr wedi dechrau dychwelyd yn araf.*

**15.** Fodd bynnag, rhannwyd effeithiau negyddol Covid-19 i raddau helaeth. Yn enwedig wrth gyfeirio at ei effeithiau ar weithwyr llawrydd, dibyniaeth y diwydiant arnynt, mynediad at gynlluniau cymorth a heriau penodol gyda'r gweithlu sy'n siarad Cymraeg yn gadael:

> *Mae'r sector yn ddibynnol iawn ar weithwyr llawrydd. Mewn cyfnodau clo, daeth popeth i stop, wedyn dechrau eto. Roedd nifer yn cwestiynu a fyddent yn dychwelyd i'r sector ai peidio. Er enghraifft, roedd rhai rolau yn y diwydiannau sgrîn (e.e. gwallt a cholur) yn gweithio oriau gwaith hirach yn ystod y pandemig oherwydd mesurau lliniaru. Arweiniodd hyn at rai pobl yn gadael y diwydiant.*

> *Roedd diffyg cymhwystra gweithwyr llawrydd newydd ar gyfer Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig yn broblematig.*

> *Roedd y cymorth gan Lywodraeth Cymru i weithwyr llawrydd yn amserol ond yn gyfyngedig, ac yn haws i bobl sy'n gwybod ble i edrych. Roedd problemau o ran sut y cafodd y cymorth i weithwyr llawrydd ei ddosbarthu. Arweiniodd y broses hon at 'oroesiad y mwyaf ffit'.*

> *'Ymhlith y rhai sydd wedi gadael y diwydiant, mae gennym, yn benodol, ein siaradwyr Cymraeg. Mae'n frwydr ceisio dod o hyd i hyfforddwyr, pobl lefel ganol, sy'n gwybod beth maen nhw'n ei wneud. Mae dod o hyd i bobl brofiadol i ymgymryd â'r swyddi hyn yn her anodd.'*

> *'Rydyn ni'n sôn am sgiliau ac ati ond ddim yn sôn am bobl sy'n gadael y sectorau. Heb roi sylw i rai o'r cwestiynau allweddol am y niferoedd uchel sy'n gadael.'*

**16.** Roedd nifer o feysydd yn cynrychioli safbwyntiau a rannwyd bod y pandemig wedi gwneud dim byr ond amlygu problemau o fewn y diwydiant oedd yn bodoli eisoes, nid o reidrwydd eu creu. Heriau a wynebwyd gan yn y diwydiant cyn y pandemig a ddaeth i'r wyneb pan darodd y pandemig:

> *'Nid Covid o reidrwydd oedd yn achosi problemau yn y sector creadigol. Tynnodd sylw at yr hyn oedd eisoes yn broblem. Diffyg buddsoddiad a chynaliadwyedd.'*

> *Nid oedd y llywodraeth yn gwerthfawrogi i ba raddau y byddai COVID yn newid cymdeithas ac felly'r diwydiannau creadigol.*

**17.** Roedd pryderon ynghylch gweithwyr llawrydd ar ddechrau eu gyrfa, yn enwedig ymhlith pobl ifanc yn y diwydiannau creadigol, y rhai heb rwydweithiau cryf a chefnogol a'r rhai heb fynediad at fodd o drafnidiaeth er mwyn cyrraedd lleoliadau anghysbell lle mae gwaith yn digwydd:

> *'Mae dau fath o weithiwr llawrydd. Y gweithwyr llawrydd profiadol a sefydledig sy'n gwneud yn dda ac yn codi prisiau uchel oherwydd galw uchel ac mae yna ddechreuwyr yn y diwydiant, y rhai sydd naill ai'n ddechrau arni neu sydd newydd ddechrau ar waith creadigol llawrydd. Y olaf o'r rhain yw'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd ar hyn o bryd, fel arfer mae ganddyn nhw ddwy swydd neu'n gweithio ar benwythnosau.'*

> *'Mae'r gweithlu creadigol, yn enwedig y rhai ifanc, yn cael problemau gyda thrafnidiaeth. Nid yw pawb yn gyrru neu'n berchen ar gar. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn ddrud ac nid yw'n wych. Nawr mae hyd yn oed ôl-groniad ar gyfer gwersi gyrru.'*

> *'O ran yr hinsawdd bresennol, lle mae plant yn mynd adref ac yn gwrando ar eu rhieni yn siarad am sut maen nhw'n mynd i dalu eu biliau, nid yw'n eu helpu i feddwl am weithio mewn sector sy'n ansefydlog yn ariannol.'*

## Sefydlogrwydd ariannol

Pa mor sefydlog yw'r sector yn ariannol a pha mor addas yw'r cyflog a'r amodau gwaith?

**18.** Wrth fynd i'r afael â sefydlogrwydd ariannol y sector, roedd ffocws ar sut i gael cyllid a sut mae'n fwy heriol i fusnesau bach o fewn y diwydiannau creadigol. Codwyd pryderon ynghylch faint o fiwrocratiaeth oedd yn rhan o geisiadau, a chyflymder y broses o'u prosesu:

> *Dylai fod yn haws gwneud cais am gyllid Llywodraeth Cymru ac, ar ôl ei gymeradwyo, dylid ei ddarparu'n gyflymach.*

> *'Gall oedi arwain at drafferthion mawr i fentrau bach.'*

> *'Mae mynediad at lwybrau at gyllid yn anodd yng Nghymru, yn enwedig gan nad yw'r rhai yn y diwydiannau creadigol yn cael eu hadnabod fel rhai sydd â'r gallu i drin gwaith papur technegol, mae rhai'n ddyslecsig, rhai yn niwroamrywiol ac ati, ac nid ydynt yn cael help i brosesu ceisiadau chwaith. Yn aml, mae sefydliadau mawr yn ei chael hi'n haws gwneud cais am gyllid gan fod ganddynt staff penodedig, sy'n wahanol i fusnesau bach. Mae Cymru Greadigol wedi paratoi llwybrau defnyddiol, ond mae angen mwy o help ar fusnesau bach gyda hyn.'*

> *'Mae pob cais am gyllid yn cael ei ystyried yn gais newydd, felly bob tro mae busnes bach yn ymgeisio, mae angen iddo brofi ei hun eto. Byddai'n wych cael system sy'n cofio ceisiadau a hanes.'*

**19.** Roedd effaith amodau gwaith ar iechyd meddwl y gweithlu yn thema o bwys. Amlygodd y rhai a oedd yn bresennol ymddygiad gwenwynig, arferion gwael a diffyg ymwybyddiaeth o sut i roi gwybod am broblemau.Mae'r problemau

hyn yn cael eu gwaethygu gan ddiwydiant lle mae llawer o bobl yn gysylltiedig, a diffyg gallu i ddelio â materion yn ymwneud ag iechyd meddwl:

> *Mae problem gydag ymddygiad gwenwynig ymhlith pobl greadigol ar lefel uwch yn y diwydiant sgrîn, a diffyg dealltwriaeth yn y gweithlu o ran sut i roi gwybod am ymddygiad gwael.*

> *Hierarchaeth yn y byd theatr Gymraeg ei iaith. Gall Cyfarwyddwyr Artistig sydd â gormod o bŵer ac sy'n cael eu gyrru gan ego, arwain at weithlu gwenwynig.*

> *Cyfarwyddwyr creadigol yw'r rhai sy'n rheoli cynyrchiadau, a gall hyn greu amgylcheddau negyddol sy'n anodd eu herio.*

> *Mae byd bach a chysylltiedig y diwydiant yn ei gwneud yn anodd rhoi gwybod am ymddygiad gwael.*

> *Yn aml, nid oes gan ficro-fusnesau (sy'n cyfrif am fwyafrif y sector sgrîn) gynghorwyr Adnoddau Dynol, felly mae'n anodd helpu gyda lles gweithwyr. Byddai gwasanaethau a rennir yn ddefnyddiol.*

> *'Mae angen dulliau Adnoddau Dynol mwy arloesol. Ar hyn o bryd caiff prosesau eu sefydlu er mwyn diogelu sefydliadau i beidio â chefnogi staff/cymunedau.'*

**20.** Nodwyd bod amodau gwaith nad ydynt yn ddelfrydol yn cael effaith yn benodol ar bobl ifanc:

> *Mae problemau iechyd meddwl yn gyffredin ymysg pobl ifanc sy'n ymuno â'r diwydiant.*

**21.** Bu'r cyfranogwyr hefyd yn rhannu syniadau creadigol ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion yn ymwneud â chyllid ar gyfer pobl greadigol. Un oedd yn sefyll allan yn arbennig oedd [1]menter 'Room 13':

> *'Mae angen i'r sector creadigol ymgysylltu'n well ag ysgolion. Mae angen artistiaid yn ôl mewn ysgolion, cynnal sesiynau 'cwrdd â'r gwneuthurwr' ac artistiaid preswyl. Mae angen i'r diwydiant gyrraedd myfyrwyr a'u hysbrydoli pan maen nhw'n ifanc. Nid peth hawdd yw cyrraedd ysgolion gan fod athrawon yn aml yn brysur a heb gymorth. Nid yw rhai prosiectau sy'n gysylltiedig ag ysgolion yn gallu parhau oherwydd eu bod hefyd yn seiliedig ar gyllid, sy'n diflannu Cyfle gwych i edrych arno yw menter Room 13, a helpodd i gadw gweithwyr creadigol yn agos at ysgolion.'*

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Pa mor gyfartal, amrywiol a chynhwysol yw'r sector? Sut y gellid gwella hyn?

**22.** Rhannodd nifer o gyfranogwyr y gweithdy safbwyntiau pryderus ar faterion ynghylch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y diwydiant. Er y cydnabuwyd bod angen gwella'r modd o gasglu data, gwnaeth cyfranogwyr sylwadau ar faterion fel cynrychiolaeth thocenistaidd heb ddatblygiad priodol a thangynrychiolaeth pobl anabl, yn enwedig mewn swyddi uwch:

> *Mae cynrychiolaeth docenistaidd yn digwydd yn hytrach na newid strwythurol. Mae pobl yn cael eu recriwtio er dibenion amlygrwydd, ond nid ydynt yn cael eu datblygu. Nid yw*

---

[1] Mae Room 13 yn sefydliad celfyddydau sydd wedi'i leoli yn Ucheldiroedd yr Alban sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar ddarparu cyfleoedd a phrofiadau celfyddydol gweledol am ddim o ansawdd uchel ar gyfer y grŵp oedran 8-25. Mae'n cynnig mannau diogel a chroesawgar i artistiaid ifanc weithio ochr yn ochr ag artistiaid preswyl proffesiynol, gyda mynediad am ddim at offer, cyfarpar a deunyddiau.

Sefydlwyd cynllun cyntaf Room 13 yn Lochaber, yr Alban, ym 1994 fel stiwdio gelf a gynhaliwyd gan grŵp o blant a'u Hartist Preswyl, Rob Fairley, mewn ystafell ddosbarth sbâr yn Ysgol Gynradd Caol. Cafodd y syniad ei fabwysiadu gan artistiaid a phobl ifanc ym mhedwar ban byd. O ganlyniad i hyn, daeth Room 13 Caol yn ganolbwynt i fudiad sy'n hyrwyddo llythrennedd gweledol, creadigrwydd a menter ymhlith pobl ifanc mewn ysgolion a mannau cymunedol ledled y byd.

*sefydliadau'n cael eu dwyn i gyfrif am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.*

*Mae pobl anabl yn cael eu tangynrychioli yn y diwydiannau sgrîn. Prin iawn yw'r bobl anabl mewn swyddi uwch. Dylai cynyrchiadau sgrin orfod ymrwymo i safon cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer cyllid gan Lywodraeth Cymru.*

*Mae 'na lawer o "imposter syndrome" yn y sector creadigol, 'dwi'n 'nabod lot o bobl sydd ar feddyginiaeth ar gyfer iselder oherwydd y straen a'r terfynau amser.'*

**23.** Daeth materion eraill yn y maes hwn i'r amlwg wrth drafod diffyg cefnogaeth i fenywod gyda phlant ifanc yn ogystal â phlant o gefndiroedd economaidd difreintiedig:

*Does dim digon o gefnogaeth i fenywod sy'n gweithio sydd â phlant ifanc.*

*'Dyw plant o gefndiroedd economaidd is ddim yn cystadlu o dan yr un amgylchiadau. Felly efallai na fydd yr un cyfleoedd yn helpu. Mae angen mwy o gefnogaeth arnynt.'*

**24.** Nodwyd bod angen dileu rhwystrau daearyddol er mwyn galluogi pobl y tu allan i Gaerdydd i gael mynediad i'r diwydiant:

*'Dim ond yng Nghaerdydd y mae artistiaid mawr a sefydledig y DU yn chwarae. Byddai'n anhygoel pe bai anogaeth i artistiaid mawr fynd i chwarae yng Nghasnewydd, Abertawe, ac ati. Byddai angen buddsoddiad a chymhelliant iddynt fynd i'r ardaloedd hyn. Buddsoddiad nid yn unig gan Lywodraeth Cymru ond o bosibl ffyrdd creadigol o edrych ar y mater.*

## Cyfleoedd hyfforddi a sgiliau

Pa mor ddigonol yw’r sgiliau a chyfleoedd hyfforddi ar hyn o bryd? A oes bylchau, a sut y dylid eu llenwi?

**25.** Yn ogystal â thrafod yr heriau hanesyddol sy'n wynebu'r diwydiannau creadigol, soniodd y cyfranogwyr hefyd am y newidiadau diweddar o ran sgiliau a hyfforddiant ar gyfer pobl greadigol:

> *Nid oedd gan rai sectorau'r sgiliau i bontio i gyflwyno digidol.*

> *Nid yw'r dawnsio ar-lein yn addas i'r diben.*

> *Mae angen sgiliau amrywiol ar bobl y dyddiau hyn.*

**26.** Soniodd nifer o gyfranogwyr nad yw addysg sy’n canolbwyntio ar STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) wedi bod o fudd i'r diwydiannau creadigol:

> *Mae angen dealltwriaeth ar y sector addysg o ran sut mae gyrfa yn y diwydiannau creadigol yn edrych. Gormod o dargedu tuag at STEM yn y gorffennol. Cyfeirir at dwf economi Cymru yn y sector hwn.*

> *'Mae gwthio tuag at STEM wedi gadael pobl greadigol ar ôl, er gwaethaf cyfraniad economaidd y busnesau sy'n bresennol yma heddiw. Mae'r cydbwysedd yn symud yn ôl tuag at y sector hwn ac mae angen i ni fanteisio ar y cyfleoedd.'*

> *Mae angen i addysg uwch edrych ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i baratoi pobl cyn iddynt ymuno â’r diwydiant.*

**27.** Ar yr un pryd, fe wnaeth y cyfranogwyr dynnu sylw at gynnwys llwyddiant a thwf diweddar yn y blynyddoedd blaenorol er mwyn annog pobl i weld cyfleoedd yn y sector creadigol.

> *'Roedd gennym 22 o gyn-fyfyrwyr a enwebwyd yn yr Oscars eleni. Faint o ddisgyblion mewn ysgolion neu bobl yn gyffredinol sy'n gwybod y ffeithiau hyn? Gall y llywodraeth helpu i hyrwyddo hunaniaeth greadigol ddiwylliannol.'*

## Cefnogaeth gan gyrff cyhoeddus

Beth fu effaith cymorth gan gyrff cyhoeddus fel Llywodraeth Cymru? A oes angen cymorth ychwanegol?

**28.** Wrth drafod rôl Llywodraeth Cymru a chefnogaeth i bobl greadigol, roedd yna awydd i weld mwy o ymgysylltu â'r diwydiant:

> *Rôl y llywodraeth yw bod yn gatalydd i rywbeth ddigwydd, ac mae angen i'r dull gweithredu fod ar gyfer y tymor hir, yn hytrach na'r tymor byr.*

> *Dylai Llywodraeth Cymru ddangos mwy o awydd am risg i helpu cwmnïau i gynhyrchu eiddo deallusol.*

> *Nid yw'r diwydiannau creadigol yn cael eu cydnabod yn ddigonol mewn cynlluniau grant nad ydynt yn canolbwyntio ar y diwydiannau creadigol.*

> *Mae cyllid mwy hirdymor yn ddefnyddiol.*

**29.** Pan ofynnwyd sut y gall Llywodraeth Cymru helpu, soniodd llawer o'r cyfranwyr am bwysigrwydd buddsoddi hirdymor, cynllunio ar gyfer y dyfodol ac angerdd i weld twf sylweddol yn y diwydiant.

> *'Mae'n ymwneud ag angerdd a chynllunio hirdymor. Ni ddylai fod gwerth 3 mis o gyllid, ond 10-15 mlynedd i'r dyfodol. Mae angen i'r llywodraeth ddarparu cyfleoedd.'*

> *'Gall y llywodraeth helpu drwy greu cyfleoedd yn ogystal â chaniatáu gwelededd. Creu amgylchedd lle gall pobl ifanc ymgysylltu â phobl greadigol.'*

> *'Nid yw'n golygu llenwi'r sector ag arian, ond ei fuddsoddi yn y llefydd cywir, mae'n ymwneud ag annog ffyrdd creadigol hefyd.'*

> *'Mae gan Lywodraeth Cymru gyfle gwych i ddefnyddio'r sector creadigol ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus. Defnyddio'r prosiectau a'r ffilmiau anhygoel sydd yng Nghymru ar hyn o bryd.'*

> *'Gall Llywodraeth Cymru helpu drwy fynd â diwydiannau creadigol gyda nhw i ffeiriau byd-eang, fel Efrog Newydd. Mae gan Lywodraeth Cymru bŵer i hyrwyddo'r diwydiant creadigol yng Nghymru.'*

# Annex 1: Rhestr o unigolion a sefydliadau

Fe wnaeth yr unigolion a'r sefydliadau canlynol ran yn y gweithdy a gynhaliwyd ym Mhrifysgol De Cymru.

| Enw | Sefydliad | Diwydiant |
|---|---|---|
| **Lauren Orme** | Lauren Orme Films | Animeiddio |
| **Ben Cawthorne** | Cloth Cat Animation | Animeiddio |
| **Julia Harris a Sarah Valentin** | The Sustainable Studio | Man gwaith creadigol |
| **Matthew Gough** | Prifysgol De Cymru | Addysg uwch - Dawns |
| **Steve Wright** | Prifysgol De Cymru | Addysg uwch - Ffasiwn, Marchnata a Ffotograffiaeth |
| **Emma Marshman** | Prifysgol De Cymru | Addysg uwch - Gemau, Dylunio a Llyfrau plant |
| **Lucy Squire** | Prifysgol De Cymru | Addysg uwch - Cerddoriaeth a Drama |
| **Dr Damon Minchella** | Prifysgol De Cymru | Addysg uwch - Cerddoriaeth |
| **Yr Athro Paul Carr** | Prifysgol De Cymru | Addysg uwch - Cerddoriaeth |
| **Dr Richard Hurford** | Prifysgol De Cymru | Addysg uwch - Perfformio, Gemau, Animeiddio a Cherddoriaeth |
| **Tom Ware** | Prifysgol De Cymru | Addysg uwch - Cyfadran Busnes a Diwydiannau Creadigol |
| **Dan Harris** | Focus Shift Films | Cwmni cynhyrchu |
| **Dr Helen Davies** | Media Cymru | Screen Skills Innovation |
| **Sally Lisk-Lewis** | Prifysgol De Cymru | Addysg uwch - Sgiliau a hyfforddiant |
| **Carmela Carubba** | Real Sfx | Effeithiau arbennig |
| **Elgan Rhys** | Theatr Iolo | Theatr |
| **Dan McGowan** | Hijinx | Theatr |
| **Nick Patterson** | Storm and Shelter | Cynhyrchu fideos |
| **Richard Moss** | Gorilla Group | Cynhyrchu fideos |